

Pris: 50c

Papur Pawb

Ionawr 2018 Rhif 435



tud 3
Pobl a Phethe

tud 6
Tafarndai Tre'r Ddôl

tud 7
Yn yr Ardd

tud 10
Taith i Fiena

Noswyl Nadolig Ysgol Sul Bethel

Ni fyddai Noswyl Nadolig yr un peth heb wasanaeth yng Nghapel Bethel ar fin nos. Cafwyd flas ar ganu carolau traddodiadol a chafwyd nifer o eitemau Nadoligaidd yn amrywio o ddarlenniadau, eitemau gan gyn-aelodau yr Ysgol Sul, côr deulais o athrawon, rhieni a ffrindiau'r Ysgol Sul a Pharti Plygain Papur Pawb. Gosodwyd nawws hyfryd a swynol yn y Capel wrth i blant yr Ysgol Sul gloi'r gwasanaeth Noswyl Nadolig gyda pherfformiad gwych o Stori'r Geni. Troediodd Mair a Joseff, bugeiliaid, angylion a gŵyr doeth yr allor a chyfrannodd y gynulleidfa hefyd i'r perfformiad wrth iddynt gael eu hannog gan yr adroddwr i weiddi allan "Hwre" a "Bwww" yn y llefydd priodol! Canwyd cân 'Un nos, un foment' gan y plant i gloi yr eitem a oedd yn pwysleisio gwir ystyr y Nadolig. Mawr yw ein diolch i'r plant ac i bawb a wnaeth gymryd rhan ac am gwneud eu gwaith mor raenus fel arfer. Mae diolch hefyd yn mynd i'r athrawon am baratoi'r eitem, i Fal Jenkins am gyfeilio ac i'r tîm technegol - y dyn sain, Dafydd Bwlchdyddwyallt ac i'r dyn golau, Gwyn Jenkins am ychwanegu i'r nawws.

Non Jones



(rhes ôl): Hopcyn a Martha Cosson, Ela Jones, Alaw Morgan, Glain Jones, Efa Saunders-Jones
(rhes flaen): Osian Gwern Jones, Swyn Jones, Daniel Morgan, Osian Saunders-Jones, Miriam Llwyd Davies

Plant yn ail-gylchu (gw. tud 5)



Sêr y byd actio yn prynu Papur Pawb yn siop Cletwr

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028

Eglwysfach/Ffwrnais: Swydd wag
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwyd ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG

Cofnodion y glaw

Diddorol iawn yw cadw cofnodion y glaw 'rydym yn ei gael bob blwyddyn. Buom i gyd yn achwyn fod llynedd yn flwyddyn wlyb iawn, ond 'roedd y flwyddyn 2015 bron mor wlyped.

Dyma gofnodion o'r glaw gawsom yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf:

2017: 1539.5 mm
2016: 1255.25 mm
2015: 1496.5 mm
2014: 1265.5 mm
2013: 999.5 mm.

Gwilym Jenkins

LRJ
Plymio cyffredinol a chynhaliaeth
Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk

NOSON HWYL DDEWI 2018

Gyda Bois y Gilfach

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Sadwrn, 3 Mawrth 2018
Adloniant i gychwyn am 7.30
Gweinir y cawl am 6.30
£8 i oedolion
£4 i blant ysgol



CRÊD A GWEITHRED
4-25 Ionawr (oriau agor: Mercher i Sadwrn: 10-12 & 2-4)
Arddangosfa am wrthwynebwyr cydwybodol, recriwtio, heddwch a dal eich tir yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

NOSON GWIS MORLAN
7.30, nos Fercher, 7 Chwefror
Cwis blynyddol ble mae timau o eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tîm? Neu dewch draw i gefnogi!

morlan.cymru

01970-617996; post@morlan.cymru

Dyddiadur

IONAWR

- 12 Sesiwn Nos Wener** Gig
Basgaid gyda Band y
Bont/Banda Zubia 8 Y Llew
Gwyn
Cwis 8 Wildfowler
Clwb Ieuenctid: 6.30 - 8.30
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 14 Bethel** 2 Richard Lewis
Rehoboth 10 Grŵp Bethel
(Thema Heddwch)
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth
Boreol
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
(Cymraeg)
- 15 Merched y Wawr Tal-y-bont**
a'r Cylch 'Kyffin Williams'
(Lona Mason)
- 16 CFFI:** Noson Bingo 7
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Cletwr: Cwrs Dysgu
Cymraeg 6.45-8 Cwrs 4
wythnos (Medi James). Rhaid
archebu lle. £12
- 17 Cletwr: 'Diwylliant a hanes**
mewn enwau lleoedd' (Dr
James January-McCann)
7.15-8.30
'Dawnsio Albanaidd' 7.30
Ystafell Haearn, Eglwysfach
- 18 Tai Chi** 2.30 Ystafell Haearn,
Eglwysfach
- 19 Clwb Ieuenctid:** 6.30 - 8.30
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 20 CFFI:** Cinio Blynyddol yng
Nghwesty'r Marine
Cletwr: 'Dal ati' 11-12 Cyfle
i gwrdd â dysgwyr eraill
- 21 Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 10 Geraint Evans
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Hwyrrol Weddi
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Gweddi
Hwyrrol (Cymraeg)
- 23 Cletwr: Cwrs Dysgu**
Cymraeg (Medi James)
6.45-8

- 25 Tai Chi** 2.30 Ystafell Haearn,
Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler
- 26 Clwb Ieuenctid:** 6.30 - 8.30
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 27 Cletwr: Gemau bwrdd**
i ddysgwyr 3-4.30. Am ddim
'Noson Burns' 7.15 Ystafell
Haearn, Eglwysfach
- 28 Bethel** 10 Richard Lewis (C)
Nasareth 10 Oedfa'r Ofalaeth
yn y Garn
Rehoboth 10 Oedfa'r
Ofalaeth yn y Garn
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth
Boreol
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Cymun
(Cymraeg)
- 30 Cletwr: Cwrs Dysgu**
Cymraeg (Medi James)
6.45-8
Tenis Bwrdd 7
Ystafell Haearn, Eglwysfach
Cymdeithas Treftadaeth
Llangynfelyn
'Gwrthwynebwyr
Cydwybodol yn ystod y
Rhyfel Byd Cyntaf' (Michael
Freeman), 7.30 Llanfach

CHWEFROR

- 2 Cwis** 8 Wildfowler
- 3 'Bore Encilio'** 10-1.30
Ystafell Haearn, Eglwysfach
Cletwr: Agoriad
Arddangosfa Gelf Ieuenctid
3-4 (Os am gyflwyno gwaith
i'r arddangosfa e-bostiwrch:
events@cletwr.com)
- 4 Bethel** Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Bugail
Rehoboth 10 J.E. Wynne
Davies
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaid
Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 2.15 Gweddi
Hwyrrol (Cymraeg)
- 6 Cletwr: 'Dehongli Cân yr**
Adar' (Rupert Marshall)
7.15-8.30. £3
- 8 Bingo** 7.30 Wildfowler
- 11 Bethel** 2 Richard Lewis
Rehoboth 2 Judith Morris

Os am gynnwys manylion
am weithgareddau eich
mudiad neu'ch sefydliad
yn nyddiadur y mis,
dylech anfon y manylion
llawn at Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.
com 01970 832478 o leiaf
ddeng niwrnod cyn y
rhifyn nesaf o Papur
Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Mair, Beryl a Lisa, gyda
Ceri yn dylunio. Golygyddion
mis Chwefror fydd Llio
(tomallio@tiscali.co.uk)
a Cathryn
(cat_yfoel@hotmail.com).
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn
newyddion fydd dydd Gwener
2 Chwefror, a bydd y papur ar
werth ar 9 Chwefror.



Eglwys Elerch

Cynhaliwyd gwasanaeth y Cymun Bendigaidd ar fore Nadolig am 8.00 y bore. Roedd y gwasanaeth o dan ofal Y Parchg Lyn Lewis Dafis. Darllenwyd y llithoedd gan Elisabeth James a Richard Huws, ac Elisabeth oedd yr organydd. Ar Sul olaf y flwyddyn ymunwyd gyda Chapel Bangor mewn gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys St. Ioan, Penrhyn-coch.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Anna Wilmot, Min y Môr, Taliesin, sydd yn yr ysbyty yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, yn ymadfer ar ôl damwain sled gas yn yr eira ym mis Rhagfyr.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Ann Humphreys, Llysteg, Taliesin, ar fod yn 'fam-gu arall' eto ar ôl genedigaeth ei gorwyres, Megan Celyn, 7 Rhagfyr, yn ferch i'w hwyres Caryl a'i gŵr Geraint ac yn chwaer fach i Marged Lois.

Newyddion Grŵp Gardd y Cletwr

Mae'r grŵp yma yn gweithio ar ddatblygu'r mannau gwyrdd o gwmpas adeilad newydd y Cletwr yn Nhre'r-ddôl. Rydyn ni wedi gwneud cynlluniau ar gyfer gofod cymunedol y gall pawb ei fwynhau ac wedi gwneud cais am gyllid i helpu gyda hyn. Byddwn ni'n chwilio am help gan y gymuned i ddarparu llwyni a phlanhigion lluosflwydd, i gynnig help ymarferol a gwybodaeth am arddio i bobl eraill. Os oes diddordeb gynnoch chi mewn helpu mewn unrhyw ffordd, e-bostiwch Juliet ar juliet.c.regan@gmail.com

Adre o'r Ysbyty

Dymuniadau gorau i John Thomas, Rhydyronnen, Tal-y-bont sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Perfformwyr yr ardal

Pleser oedd gweld ieuencid yr ardal yn perfformio ar lwyfannau dros y Nadolig. Roedd Glain a Miri Davies, Pentan, Llandre a Celsea Southgate, Tre'r-ddôl yn rhan o *The Little Match Girl* yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ac roedd Heledd ac Eli Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont yn rhan o berfformiad *Scrooged Out*, Arad Goch.

Pobl a Phethe



Cinio Nadolig

Cinio Henoed Llangynfelyn yn y 'Wild Fowler' yn Nhre'r Ddôl ar y 9fed o Ragfyr.



Yr Ebenezers tu allan y theatr gyda llun Sam yn y ffenest

Sam yn chwarae rhan Aladdin

Llongyfarchiadau i Sam Ebenezer, Maes-y-felin, Tal-y-bont a fu'n chwarae rhan Aladdin ym mhanto Theatr Towngate yn Basildon dros y Nadolig.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â William Jones, Dôl Pistyll a Richard a'r teulu Ardwyn, Tal-y-bont ar golli modryb sef Mrs Morfydd Jones, Rhiwfelen, Penegoes, Machynlleth.

Hoci Merched

Braf oedd gweld a chlywed Rosie Bailey, Bont-goch, ar newyddion

BBC Cymru yn trafod rhagolygon tîm hoci merched Cymru yn Chwaraeon y Gymanwlad a fydd yn cael eu cynnal yn Awstralia yn ddiweddarach eleni. Mae Rosie, sydd eisoes wedi ennill ei chap dros Gymru, yn gobeithio ennill ei lle yng ngharfan Cymru ar gyfer y Gemau a mawr obeithiwn y bydd hi'n llwyddo.

Y Ffair Aeaf

Cafodd Beti Wyn, Y Rhos, Taliesin lwyddiant yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd. Cipiodd y wobwr gyntaf a'r ail yn yr adran Ffotogaffiaeth gyda collage o luniau ar y thema Nadolig a 3ydd am glustog ar thema Gogoniant y Gaeaf. Cafodd dair 3ydd gwobr yn yr adran Goginio ac yn yr adran Flodau, gan gipio'r wobwr gyntaf am Fascinator. Derbyniodd ganmoliaeth uchel am ei thorch ar y thema eiddew a'r gelynnen ac roedd i'w gweld wrth fynedfa Caffi Cletwr i groesawu pawb i'r adeilad cyn y Nadolig.

Cydymdeimlo

Yn ystod y mis bu farw Tessa Evans, 15 Maesyderi, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r plant, Rosemary, y diweddar Trevor, Julie, Charles a'u teuluoedd.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail; Margaret Jones, Nantgaredig a Non Griffiths, Fferm Ffwrnais a'u teuluoedd ar golli brawd yng nghyfraith ac ewyrth yng Nghaerdydd yn ddiweddar, sef Gwyn Hopkins, gŵr eu chwaer a modryb Gwenda.

Wedi bod yn yr ysbyty

Gwellhad buan i Gerald Roberts, 90 Maesyderi, Tal-y-bont a dderbyniodd driniaeth yn ysbyty Treforus cyn y Nadolig ac i Gwenllian Parry-Jones a fu hefyd am gyfnod yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Geraint a Jen Evans, Aberystwyth ar enedigaeth efeilliaid, Olifer a Olafia, wyrion i Arwyn Jones, Glynrhosyn, Tal-y-bont a gor wyrion i Margaret Jones, Nantgaredig, Tal-y-bont.

Croeso

Croeso cynnes iawn i Myra Price o Fachynlleth sydd wedi symud i fyw i Cartrefle, Tal-y-bont. Mae Myra yn fam i Lynn Ebenezer, Maes-y-felin ac mae wedi symud yn agosach at Lynn a'i theulu.

Dathlu Pen-blwyddi yn Nhal-y-bont

Llongyfarchiadau i Janet Morgan, Moelgoch a fu'n dathlu ei phen-blwydd arbennig yn ystod mis Rhagfyr. Hefyd i Elen Ebenezer, Maes-y-felin oedd yn 21ain a Betsan Siencyn, Tanrallt oedd yn 18 oed.

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Cffi Tal-y-bont a'r Cylch

Noson Bingo

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Farwth, 16 Ionawr 2018
am 7yh

Bore Coffi yn Eglwysfach



Cynhaliwyd Bore Coffi yn yr Ystafell Haeam, Eglwysfach fore Sadwrn 9 Rhagfyr tuag at y Ganolfan Deuluol, Borth a Shelter Cymru.

Dosbarth Ioga



Criw yoga yn dathlu pen-blwydd yogi Regina ar 8fed Rhagfyr yn y Cletwr. Mae Regina ar y dde yn y cefn. Mae'r dosbarthiadau yn cael eu cynnal yn Llanfach ar foreau Dydd Gwener 10.15-12pm

Cyngerdd Nadolig y Cylch Meithrin



Er gwaethaf yr eira cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig Cylch Meithrin llwyddiannus eto eleni. Hyfryd oedd gweld y plant yn perfformio stori'r Nadolig a chanu caneuon a charolau (yn frwdfrydig iawn mewn rhai achosion!) Gwnaeth y staff job arbennig eto ac roedd llwyth o gefnogaeth gan y gymuned. Roedd y ffair grefftau yn boblogaidd iawn hefyd gyda llwyth o stondinau amrywiol. Noson fythgofiadwy!



Ysgol Tal-y-bont



Goleuo Coeden y Pentref



Cyngerdd Nadolig



Cinio Nadolig

Ray Ceredigion



Ysgol Greadigol

Ysgol Greadigol



Pêl-droed



Cynllun Kerbcraft

Ysgol Tal-y-bont

Goleuo Coeden y Pentref

Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o bobl y gymuned yn dod i weld plant yr ysgol yn perfformio yn y Neuadd Goffa eleni eto. Hoffwn ddiolch yn fawr am y gwahoddiad a diolch yn fawr i'r staff am baratoi'r eitemau, i bawb sydd wedi helpu gyda'r hyfforddi ac yn enwedig i'r plant am eu cyfraniadau amrywiol. Uchafbwynt y noson oedd gweld Ellie a Miri, Llysgenhaddon yr Ysgol, yn cynnau'r golau ar y Neuadd – arwydd fod y Nadolig wedi dechrau!

Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd ein cyngerdd Nadolig eleni yng Nghapel Bethel. Roedd hi'n braf gallu croesawu cymaint o bobol, yn rhieni, ffrindiau a chyn ddisgyblion oedd wedi dod i gefnogi'r ysgol unwaith eto. Hoffwn ddiolch i'r gweinidog a swyddogion y capel am adael i ni ddefnyddio'r adeilad ac i Bwyllgor y Neuadd am ganiatáu i ni gynnal y parti yno ar ôl y gwasanaeth hefyd. Diolch arbennig i Mr Ieuan Morgan am bob cymwynas wrth agor a chloï ac am sicrhau gwres ar gyfer yr ymarferion..

Cyflwyno stori'r geni wnaethom eleni gyda'r plant i gyd yn mwynhau'r perfformio, y canu a'r actio. A'r cyfan yn ein harwain at y preseb ac at eni Iesu Grist. Roedd hi'n amlwg fod y gynulleidfa a'r plant wrth eu boddau ar y noson ac roedd y gyngerdd wedi ei gwau at ei gilydd yn llwyddiannus iawn.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i Miss Morris am gydlynw'r noson, i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r plant mor drwyadl ac i'r rhieni hefyd am gynorthwyo gyda dysgu'r geiriau, y caneuon a'r gwisgoedd. Diolch yn fawr i Mrs Falyri Jenkins am bob cymorth gyda'r ochr gerddorol ac i Catrin am gyfeilio ar y noson. Da iawn chi blant am ddysgu eich darnau mor arbennig ac am y perfformiadau cofiadwy.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am roi o'u hamser i baratoi ar gyfer y noson ac am weithio mor galed i sicrhau fod pawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gyfrannu at y raffl a llongyfarchiadau i bawb a enillodd wobwr.; Hamper (Cletwr): J Jones, Tre'r ddôl; Llyfrau (Atebol): Denise Morgan, Taly-bont; Llyfrau (Y Lolfa): Daniel Morgan, Pentrebach; Ticedi sinema (Libanus 1877): Joab Hustings, Ffwrnais; Hamper (Garej Davmor): Stuart Mills; Crogdllws (Jewellery House): Sue Cosson; Blodau Nadoligaidd (Newmans): Antony Foulkes; Taith Stadiwm y Mileniwm (Antony Foulkes) Gillian Morris; Coed Tân (Teresa Jones): Libby Foulkes; Print (Juliet Regan): Janet Jones, Llwynglas; Cinio i 2 (Y Llew Gwyn): Lyn Davies, Glanrheidol; Nwyddau Gwallt (Salon Leri): Sue Cosson; Oen bach meddal (Ambassadors): Andrew Groves; Potel o win arbennig (Y Blac): Dylan Hughes; Prosecco a siocledi (Tesco): Siân Wyn Jones; Siocledi (Wendy Jones): Osian Saunders-Jones; Bwgan Brain: Llio Rhys; Achub Anifeiliaid (Atebol): Hollie Wyn, Taliesin; Dysgu gyda Lliwiau (Atebol): Sue Cosson; Geiriau Cyntaf (Atebol): Menna Morgan, 4 Dôl Pistyll.

Mae cynnal noson fel hon yn gyfle gwych i atgyfnerthu ymdrechion yr ysgol i sicrhau ein bod yn rhan bwysig o'r gymuned leol yn ogystal â chael cyfle i gyfrannu i'r gymuned ehangach wrth groesawu cymaint o bobl i ymuno gyda ni.

Sinema

Mae'n draddodiad ers sawl blwyddyn bellach i'r plant i gyd fynd i weld ffilm yn Sinema'r Commodore yn Aberystwyth gyda chymorth y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Y ffilm eleni oedd 'Sing' ac fe gafodd pawb amser da wrth chwerthin ar gampau'r cymeriadau doniol ac wrth ganu'r caneuon.

Tra'n bod ni gyd yn mwynhau yn y Sinema fe gafwyd ymweliad gan rywun arbennig iawn, ond doedd Mr Jones ddim yn hapus gydag olion y ceirw!

Cinio Nadolig a Ray Ceredigion

Mae yna gryn edrych ymlaen i'r cinio Nadolig yn Ysgol Tal-y-bont a pha ryfedd? Mae staff y gegin yn paratoi bwyd blasus o'r safon uchaf



yn ddyddiol yma ond mae'r cinio Nadolig wastad yn achlysur arbennig. Diolch yn fawr i Mrs Jones, Mrs James a Natalie am yr holl waith paratoi, nid yn unig ar gyfer y Nadolig ond ar hyd y flwyddyn.

Ar ôl cinio roedd hi'n hyfryd i groesawu Ray Ceredigion atom unwaith eto i gynnal sesiwn o ail-gylchu hen ddefnyddiau er mwyn creu gwrthrychau newydd creadigol. Roedd y plant i gyd wrth eu boddau ac yn helpu ei gilydd gyda'r creu. Diolch yn fawr i Catrin ar ran y Gymdeithas Rieni am ein cynorthwyo yn ystod y prynhawn hefyd.

Siwmperi Nadolig

Mae gwisgo ein siwmperi Nadolig yn draddodiad yr adeg yma o'r flwyddyn. Cawsom dipyn o hwyl eleni eto yn cymharu gwahanol siwmperi y plant a'r staff! Roedd sawl un diddorol iawn yn eu plith a nifer o rai doniol iawn hefyd. Ond prif bwrpas eu gwisgo oedd codi arian i elusen Achub y Plant ac roedd hi'n braf gallu trosglwyddo sic i goffrau'r elusen hon eleni eto.

Ysgol Iach

Yn ystod mis Rhagfyr cafwyd ymweliad gan Llinos o Asiantaeth Sbectrwm. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb i hyrwyddo iechyd a lles y plant a'r staff ac mae Sbectrwm yn rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i bwysleisio pwysigrwydd perthnasau iach a chodi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o faterion cam-drin. Roedd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn rhoi cyfle i'r plant drafod yn agored eu barn a'u syniadau am wahanol safbwyntiau a dechrau meddwl am herio stereoteipiau cyffredin amdanynt hwy eu hunain ac eraill.

Cynllun Kerbcraft

Yn ystod mis Rhagfyr, roedd plant Blwyddyn 1 a 2 wedi derbyn gwersi ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel dan gynllun Kerbcraft. Mae derbyn yr hyfforddiant yma mor bwysig gan fod yr ysgol mor agos i ffordd brysus. Diolch yn fawr i Rose-Anne am arwain yr hyfforddiant ac i'r staff am eu gwaith gyda'r plant.

Pêl-droed

Mae nifer fawr o blant yr ysgol yn chware pêl-droed yn rheolaidd ar ddydd Sadwrn. Cafwyd dechrau arbennig i'r tymor newydd eleni gyda'r tîm dan 11 yn ennill Tlws Gary Pugh. Da iawn chi fechgyn – tipyn o gamp.

Ysgol Greadigol

Datblygiad cyffrous yn ystod y mis oedd cynnal cyngerdd arbennig yn yr ysgol. Rhoddwyd gwahoddiad i unrhyw un oedd am chwarae offeryn i roi perfformiad o flaen yr ysgol gyfan. Dyma'r tro cyntaf i nifer o'r plant chwarae'n gyhoeddus ac fe gafwyd sawl datganiad cofiadwy. Diolch yn fawr i bawb am gymryd rhan, roedd yn arbrawf llwyddiannus iawn.

Siarter Iaith

Cyn diwedd y tymor trefnwyd gig arbennig ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid i hyrwyddo diddordeb y plant hynaf mewn cerddoriaeth Gymraeg. Roedd tipyn o gyffro i weld yr enwog Candelas yn chwarae – y tro cyntaf i nifer fawr o'r plant weld band roc yn canu'n fyw. Diolch yn fawr i bawb wnaeth drefnu'r gweithgaredd gyffrous yma.

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00

(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com

Tafarndai Tre'r Ddôl

Cyfeiriwyd yn rhifyn Medi o *Bapur Pawb* at y wefan newydd a grëwyd gan Nigel Callaghan, *Peint o Hanes Plis*

(<<http://pint-of-history.wales/cy/explore.php>>), sy'n cofnodi holl dafarndai Ceredigion dros y canrifoedd.

Yn y rhifyn hwnnw cyfeiriwyd at dafarndai Taliesin ond y tro hwn fe gawn ychydig o hanes tafarndai Tre'r Ddôl.

Un dafarn sydd yn y pentref erbyn hyn, sef y Wildfowler, ond hyd at yr 1950au roedd tafarn arall yno hefyd sef yr Half-way Inn. Cofnodir hefyd tafarn o'r enw 'The Unicorn' mewn dyddiadur teithiwr ond mae'n debygol mai enw dros dro ar un o'r ddwy dafarn arall oedd hwn.

Mae'r cofnod cyntaf ar y wefan at yr Half-way yn dyddio o'r 1840au ond roedd y dafarn yn bodoli ymhell cyn hynny. Yn ôl y cofnodion degwm, perchennog yr eiddo oedd Dug Newcastle ac enw'r tafarnwr oedd Hugh Rowlands (1774-1857). Yn y cyfnod hwnnw, enw'r dafarn oedd y Boar's Head. Yn ôl cofnod am farwolaeth Hugh Rowlands yn 1857 dywedir iddo gadw'r *Half-way House* am oddeutu trigain mlynedd, sy'n golygu fod y dafarn yn bodoli ar ddiwedd yr 18fed ganrif. Yn yr Half-way cynhaliwyd achosion post mortem pryd y galwyd rheithgor i ddyfarnu ar farwolaethau disymwth. Roedd llawer o'r achosion hyn yn ymwneud â'r trueiniaid a foddwyd yn yr afon Cletwr.

Priododd merch Hugh Rowlands, Elizabeth, un o deulu Ynyscapel, sef Hugh Jones. Yn 1832 ganed mab iddynt, Humphrey Rowland Jones. Mae'n bosibl iddo gael ei eni yn yr Half-way (gweler *Papur Pawb*, Mehefin 1982, tud 6) neu yn Ynyscapel. Daeth Humphrey Rowland Jones yn enwog fel pregethwr tanllyd yn ystod Diwygiad



1859 a chafodd ei enwi yn 'Humphrey Jones, y Diwygiwr Mawr'.

Ceir ar y wefan hanes difyr am achos o ddwyn gan forwyn yn yr Halfway yn 1882:

Cafodd Elizabeth Evans, morwyn, ei chyhuddo o ddwyn sgarff cyd-forwyn iddi o'r enw Elizabeth Thomas, Dolybont. Dywedodd yr achwynydd ei bod hi â'r diffynnydd wedi bod yn gyd-weision yn y Half-way Inn. Gadawodd yr achwynydd, ac ar ôl mynd adref, darganfu ei bod wedi colli sgarff. Dywedodd y dafarnwraig, Mary Josephine Hazeel i'r achwynydd ddweud wrthi ei bod wedi colli sgarff. Ym mhresenoldeb P.C. Jones, archwiliwyd bocs y diffynnydd gan y ddwy a dod o hyd i'r sgarff. Dywedodd y diffynnydd ar y pryd ei bod wedi ei ffeindio'r sgarff dan y gwely. Cafwyd Elizabeth Evans yn euog a'i dedfrydu i chwe wythnos o garchar gyda llafur caled. Tipyn o gosb.

Serfiwyd y peint olaf yn yr Half-way ar 30 Mawrth 1957 ac wedi hynny adferwyd yr adeilad er mwyn creu tai annedd.

Yr hen enw ar y Wildfowler oedd y Commercial Inn. Ceir cyfeiriad at y dafarn yn 1875 ac mae awgrym ar y wefan bod enwau cynharach arni, sef y Miners Arms neu'r Dolcletwr Arms. Tua hanner canrif yn ôl newidiwyd yr enw i'r Wildfowler a dyma'r unig dafarn sydd bellach wedi'i lleoli ym mhlwyf Llangynfelyn.

GJ

Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30





Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

*Gofynnwch am bampffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760



IONAWR

Ym mis Ionawr mae angen amddiffyn yr ardd rhag rhew a barrug, gwyntoedd cryfion a glaw trwm. Gallwch symud rhai planhigion er mwyn sicrhau eu bod yn cael mwy o oleuni. Cofiwch fwydo'r adar hefyd – mae bwyd yn brin iawn iddyn nhw yn ystod y gaeaf. Gallwch hefyd ddechrau cynllunio ar gyfer yr ardd lysiau eleni.

Tasgau

1. Gwaredu'r goeden Nadolig trwy ei thorri'n ddarnau mân a'i defnyddio fel taenfa [mulch] i orchuddio'r pridd.
2. Agorwch ffenestri'r tŷ gwydr ar ddyddiau braf.
3. Pan nad yw'r pridd yn rhy wlyb, gallwch balu rhannau nad ydynt eisoes wedi'u palu.
4. Gallwch drwsio ac ail-siapiu ochrau'r lawnt.
5. Edrychwch yn ofalus ar y Dahlia, Begonia a'r Canna rhag ofn eu bod wedi pydru.
6. Gallwch docio coed afalau a gellyg.
7. Gallwch roi bwced ar y riwbob a'i berswadio i dyfu'n gynt.
8. Cynlluniwch y modd yr ydych am gylchdroi eich cnydau yn yr ardd lysiau eleni.
9. Rhowch fwyd a diod yn rheolaidd i'r adar.
10. Mwynhewch gynllunio ymlaen wrth ddarllen eich catalogau.

Os yw'r ddaear wedi rhewi, cuddiwch eich rhosynnau neu goed ffrwythau sydd heb eu plannu â gwrtaith a'u gosod mewn potyn mewn lle cysgodol neu sied hyd nes y bydd y tywydd yn gwella. Byddai'r hen bobl yn dweud ei fod yn syniad da i roi cinio ar ddiwrnod Nadolig i'r rhosod hefyd. Os na wnaethoch chi hynny ychydig yn ôl, wel dyma'ch cyfle i'w bwydo nhw rwan.

Cliriwch hen ddeilach a glaswellt a spigwch y lawnt yn ddwfn hefo fforch. Mae hwn yn waith caled ond mae'n talu ar ei ganfed am fod yr aer yn ysgafnhau'r pridd ac yn rhwystro mwsog yn nes ymlaen.

Planhigyn y mis – Hamamelis mollis (Collen ystwyth/Wych hazel)

Daeth y goeden hon o Tsieina yn 1879. Mae'n goeden boblogaidd gan fod y brigau sy'n dal clystyrau o flodau melyn peraroglus yn dod â lliw ar ganol gaeaf. Yn nes ymlaen, bathwyd yr enw collen ystwyth gan ymsefydlwyr Prydeinig i Ogledd

America oedd yn gweld tebygrwydd i'r gollen oedd yn gyfarwydd iddynt o'u mamwlad.

Daw'r gair 'wych' o'r hen air Saesneg am frigau hyblyg; dyna pam y defnyddir brigyn o'r gollen hon fel gwialen i chwilio am ddŵr – 'dowsing rod'.

(drwy garedigrwydd Llais Ardudwy)

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Nos Lun 11 Rhagfyr, oherwydd salwch ac amgylchiadau anodd criw bychan o aelodau ddaeth ynghyd. Ar ddechrau'r cyfarfod dymunwyd yn dda a diolchwyd i Elizabeth Evans a oedd yn ymddeol o'i swydd fel Swyddog Datblygu'r mudiad yn Ngheredigion a Phenfro ar ddiwedd y flwyddyn. Manon Reynolds oedd y wraig wadd a chyflwynodd i ni rinweddau'r planhigyn Aloe Vera. Mae Manon yn asiant i gwmni o'r enw Forever Living sy'n defnyddio'r planhigyn hwn i wneud cynnyrch megis sebon, eli amrywiol, yn ogystal â diodydd llesol. Trefnwyd y noson gan Elizabeth Evans a hi gyflwynodd y wraig wadd, a fu'n gyn-ddisgybl iddi yn Ysgol Penrhyn-coch. Paratowyd y baned gan Elizabeth a Megan.

Cymdeithas y Chwiorydd

Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth, Tre-Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 12 Rhagfyr, ac estynnwyd croeso i'n gwesteion, Ina a John Tudno Williams, Capel Seion. Fe'n rhoddwyd yn 'Naws y Nadolig' drwy'r caneuon, y carolau, y darlenniadau a'r cerddi a gyflwynwyd ganddynt. Cydganwyd y garol 'I orwedd mewn preseb' i orffen, a diolchwyd i'r ddau am brynhawn dymunol iawn. Yna mwynhawyd te, mins peis a chacen Nadolig wedi eu paratoi gan Carys Briddon ac Eiriona Metcalfe.



**CRWYDRO Teithiau
ER BUDD
2018**

Dwy daith gofiadwy

**Brasil, Yr Ariannin a'r Wladfa Gymreig
31 Mai - 16 Meh, 2018**



**Rhinweddau De Affrica
Medi 8-22, 2018**



Y ddwy daith i gynnwys: Gwestai a brecwast oni nodir yn wahanol • Hediadau rhyngwladol a mewnol • Cludiant i ac o faes awyr Manceinion • Cludiant a thywyswyr profiadol trwy gydol y daith.

Am fwy o fanylion a ffurflen archebu, cysylltwch â Dafydd Owen
Arwelfa, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7DL

01286 881 911 (dydd) 07795 485 081 (symudol)
ebost: crwydro@cwydro.com

www.crwydro.com



Teyrnged

Mr Alun Jones

Llwynglas, Tal-y-bont

Gyda thristwch mawr y clywodd ardal eang am farwolaeth sydyn Mr Alun Jones, Llwynglas, fin nos ddydd Gwener y 24in o Dachwedd. Gŵr ei filltir sgwâr oedd Alun heb os nac oni bai a Llwynglas fu ei gartref gydol ei oes, yno y cafodd ei eni yn fab i Ifor a Ceridwen Jones ym mis Mehefin 1946 ac yno y bu diwedd y daith 71 mlynedd yn ddiweddarach. Ac wrth fwrw trem ar rawd ddaearol Alun credaf fod modd crynhoi'r cyfan dan dri phenawd, sef amaeth, chwaraeon a theulu.



Fel unig blentyn teulu amaethyddol yr oedd yna gwys wedi ei hagog iddo o'r dechrau'n deg a'r gwys honno, sef cwys yr amaethwr, fu ei fyd ar hyd y blynyddoedd. Wedi cael ei addysg yn Nhalybont ac Ardwyn adref y daeth i gynorthwyo ei dad ar y fferm a thros y blynyddoedd fe welodd lawer iawn o newidiadau yn y dull o ffermio yn Llwynglas gyda chyfnodau pan fu godro a chadw moch yn cael cryn sylw yno. Cofir am ei hoffter o ddefaid Suffolk hefyd ac y mae'r tlysau amaethyddol sydd i'w gweld ar silffoedd cwpwrdd gwydr yn Llwynglas yn tystio i'r llwyddiannau a gafodd yn y meysydd hyn. Bu'n gefnogwr brwd o sioe Talybont ar hyd ei oes ac mae'r ffaith iddo wasanaethu fel Stiward yn Adran y Gwartheg yno am yn agos i hanner can mlynedd yn bluen liwgar iawn yn ei het.

Maes arall fu'n rhan fawr o fywyd Alun oedd chwaraeon o bob math a hynny fel un oedd yn cymeryd rhan, yn ogystal ag fel cefnogwr a gwyliwr ar y teledu. 'Roedd pêl-droed, rygbi, criced a snwcer yn agos iawn at ei galon ond mae'n rhaid cydnabod mai dartiau oedd agosaf o bell ffordd. A rhaid cydnabod iddo fod yn llwyddiannus iawn ac adnabyddus iawn yn y maes hwnnw mewn ardal yn ymestyn o Fachynlleth i Aberystwyth. Erbyn 1977, ac yntau ddim ond yn 30 oed ar y pryd, yr oedd wedi ennill 75 o dlysau am chwarae dartiau (ac y mae'r rheini hefyd yn y cwpwrdd gwydr) ac mae'n debyg mai uchaafbwynt ei yrfa fel dartiwr oedd yr achlysur hwnnw ym Machynlleth pan lwyddodd Alun i drechu Leighton Rees a oedd yn Bencampwr yn y byd dartiau.

Yn berson tawel a hollol ddiymhongar yr oedd y noddfa a gai yn Llwynglas yng nghwmni ei deulu a'i gymdogion yn nefoedd ar y ddaear iddo. Fel yr unig blentyn ar yr aelwyd fe gafodd holl sylw ei rieni a bu'r ffaith iddo eu colli ag yntau'n gymharol ifanc yn ergyd drom iddo yn naturiol. Yna daeth Janet i lonni ei fyd, hithau o gefndir amaethyddol a chystadlu yn ei gwaed, a Ceri hefyd yn ei thro. Ac wedi i Ceri briodi Dylan, fe anwyd Osian a Gruffudd a rhoi ar droed gynllun i ddod i fyw yn Llwynglas yn y dyfodol agos yr oedd ei gwpan yn llawn ac fe hoffwn feddwl mai gyda'r gwpan honno yn ei law y llithrodd yn dawl o'i gadair esmwyth yn Llwynglas un min nos i fyd o dragwyddol heddd. Coffa da am un a fu'n driw i'w filltir sgwâr ar gydol ei oes a phob cydymdeimlad â'r teulu ac â phawb oedd yn ei adnabod.

Richard Lewis

Gyrfa chwist Llawr-y-glyn



Enillwyr gyrfa chwist Llawr-y-glyn, Bont-goch ar nos Iau, 28 Rhagfyr.
1. Oisin Lludd. 2. Ann Basnett. 3. Siôn Jones.

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Yn y llun gwelir Bob Williams a Ieuan Morgan yn defnyddio Twr Sgaffaldio newydd y Neuadd Goffa i drwsio golau'r Neuadd. Prynwyd yr offer gyda chefnogaeth hael Cronfa Eleri ac mae'n gaffaeliad mawr wrth wneud gwaith cynnal a chadw. Ni fydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd yn cyfarfod ym mis Ionawr. Y cyfarfod nesaf, felly, fydd y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir nos Fercher 14 Chwefror am 8.00 o'r gloch. Bydd croeso mawr i unrhyw wirfoddolwyr newydd ymuno â'r tîm gweithgar sydd yn cynnal y Neuadd. Cofiwch hefyd am Noson Hwyl Ddewi, nos Sadwrn 3 Mawrth. Bydd tocynnau ar gael gan aelodau'r Pwyllgor.



Cletwr



Mae hi wedi bod yn fis hynod o brysur (a diddorol) i Cletwr! I gychwyn, aeth Karen Evans a Suzanne Davies i Lundain i dderbyn gwobr arall – *Wales Rural Co-operative Award* gan y Plunkett Foundation. Yn ôl y beirniaid, mae Cletwr yn "Ffocysu ar bobl ifanc – maent wedi ymrwymo i addysgu sgiliau newydd i'r genhedlaeth iau a'u cyflwyno i hanfodion rheoli ariannol." A hefyd bod y prosiect yn "Enghraifft drawiadol o adfywio cymuned sy'n dioddef dirywiad dramatig mewn gwasanaethau gwledig".

Wedyn fe ddaeth y Nadolig! Amser prysur iawn: noswyl Nadolig oedd ein diwrnod prysuraf erioed. Diolch yn fawr iawn i'r staff a gwirfoddolwyr am eu gwaith caled, ac i'n cwsmeriaid ffyddlon am eu chefnogaeth. Ers i ni ailagor yn yr adeilad newydd rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn ein busnes, yn arbennig yn y caffi, ac fel canlyniad rydym bellach yn cyflogi mwy o staff. Gobeithio bydd y cynnydd yn parhau!

Ac yn olaf, dydd Iau 4ydd o Ionawr oedd yn ddiwrnod cyffrous. Mae S4C a Radio Cymru wedi adrodd am Cletwr nifer o weithiau eisoes, ond ar y diwrnod yma, fe ddaeth criw o raglen 'Prynhawn Da' (S4C) i edrych ar y Cletwr newydd ac, ar yr un pryd, Mari Grug o Radio Cymru / Newyddion BBC i recordio barn cwsmeriaid a staff am dreth arfaethedig o 25c ar fygiau plastig têt-awê. I gyd yn ystod amser cinio prysur!

Nes ymlaen ym mis Ionawr, bydd sgwrs ddiddorol iawn am 7.15 yh ar 17eg, pan fydd Dr James January-McCann yn siarad am "Diwylliant a Hanes mewn Enwau Lleoedd" (yn Saesneg), gan rannu ei ganfyddiadau am y lleoedd rydyn ni'n eu nabod ac yn byw ac yn gweithio ynddynt. Jyst trowch lan! Awgrymir cyfraniad o £3.

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd. Gobeithio fe welwn ni chi yn y siop a chaffi neu'n mynychu un o'n digwyddiadau diddorol yn y dyfodol agos.

CFFI Tal-y-bont a'r Cylch



*Dafydd ap Hywel, Wiliam Jones, Llywelyn Bowen a Gerwyn Jones
yn canu'n swynol iawn*

Canu Carolau

Uchafbwynt y mis oedd mynd o amgylch yn canu carolau (neu O Deuwch Ffyddloniaid yn benodol!) i gasglu arian tuag at achosion da. Casglwyd £1,981.71 tuag at yr Ambiwylans Awyr, Mind Aberystwyth a Ward Meurig a diolch i bawb am roi mor hael.

Bingo a chinio blynyddol

Cynhelir ein noson Bingo ar Nos Fawrth 16 Ionawr am 7 o'r gloch a'r cinio blynyddol ar Nos Sadwrn 20 Ionawr yng Nghwesty'r Marine. Croeso cynnes i bawb.

Pantomeim

Byddwn hefyd yn dechrau meddwl am gystadleuaeth y panto, felly ni fydd seibiant nawr am rai wythnosau!



Codi arian at Elusen 'Sense'


Gwnaeth trigolion Bont-goch ymdrech arbennig yng nghanol eira 10 Rhagfyr i gymryd rhan mewn digwyddiad 'Sul Synhwyrdd' a gynhaliwyd yng nghartref Jane a Mike Bailey, Troedrhwiwseiri. Pwrpas y diwrnod oedd codi ymwybyddiaeth ag arian tuag at yr elusen 'Sense', sy'n cefnogi'r gymuned ddall-fyddar a'u teuluoedd.

Roedd Mike a Jane wedi darparu digon o fwyd a danteithion, a chafodd y plant a'r oedolion gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau synhwyrdd. Codwyd swm anrhydeddus iawn o £260 – diolch yn fawr i bobl Bont-goch.

Bydd Jane yn rhedeg marathon Llundain ym mis Ebrill er budd yr elusen, a medrwch ddarlennu mwy am yr elusen, a chyfrannu, ar ei thudalen Just Giving:

<https://www.justgiving.com/fundraising/jane-bailey01>

Yn y cyfamser, cadwch lygad allan am weithgareddau pellach i godi arian, ac os digwydd i chi weld Jane a Charlie yn ymarfer rhedeg, cofiwch godi llaw arnynt! Diolch i Jane a phob dymuniad da iddi ar gyfer mis Ebrill.



Jane & Charlie yn ymarfer yn galed yn ardal Bont-goch

Machlud ar un o sêr Merched y Wawr

Dyma gyfweiliad arbennig gydag Elizabeth Evans, Coed yr Eos, Taliesin sy'n ymddeol ar ôl 14 mlynedd fel Swyddog Datblygu Merched y Wawr dros ardal Ceredigion a Phenfro.



1. Beth ydych chi wedi mwynhau fwyaf am eich amser fel Swyddog Datblygu?

Cefais bleser mawr wth gyfarfod pobol a'u helpu i redeg eu canghennau. Roeddwn fel dolen rhwng yr aelodau llawr gwlad a'r Mudiad Cenedlaethol, weithiau yn egluro negeseuon ffurfiol neu'n rhoi'r merched ar ben ffordd. Dwi wedi cael hwyl fel trefnydd Chwaraeon Cenedlaethol Merched y Wawr, y digwyddiad blynyddol sy'n rhan o'r Wyl Haf yn Machynlleth.

2. Pa waddol fyddwch yn ei adael?

Wel, mae cangen newydd yr Hafod, Gorsgoch wedi'i sefydlu a 9 aelod newydd yng nghanen Mynach. Rydym ni hefyd wedi ac yn estyn croeso cynnes i ddysgwyr sydd wedyn yn gallu gwneud cyfraniad allweddol, pobl fel Trysorydd Rhanbarth Penfro, Sue Carey. Mae Sue yn ddysgwraig o Lundain, yn aelod o 2 gangen ac yn frwdfrydig dros ben!

3. Pa deithiau ydych chi wedi trefnu?

Yn ystod mis Medi/Hydref bob blwyddyn byddwn yn trefnu Trip Celf a Chrefft e.e. Yr Ysgwrn eleni, a buom ni yng Nghaer, ar Gamlas Llangollen, yn Street yng Ngwlad yr Haf ac yn Henffordd. Byddwn yn ceisio cyfuno elfen o addysg, mwynhad a siopa bob tro. Roedd helynt efo'r bws yn aml: un tro aeth y bws heb godi fi y Swyddog Datblygu, ac roedd raid iddo droi nôl. Tro arall roedd y bws wedi torri lawr ac oedd rhaid mynd i westy oedd dan ei sang efo parti priodas. Rhaid oedd aros yn Fron Oleu tan i fws arall ddod o Langeitho!

4. Ydych chi'n ffyddiog am ddyfodol Merched y Wawr?

'Rwy'n ffyddiog iawn am y dyfodol ond teimlaf yn gryf bod rhaid i'r Clybiau a'r Mudiad agosau fel bod dilyniant cadarn, a bod pawb yn dysgu oddi wrth ei gilydd.

5. Gan ei bod hi'n adeg arbennig o'r flwyddyn, rydych chi'n cael un dymuniad. Beth ydych chi'n dymuno?

I gael iechyd a chael cynorthwyo'r gangen i wynebu'r dyfodol, newidiadau a all fod yn gyffrous.

6. Felly, traed i fyny rwan Elizabeth?

Dwi'n Is-Lywydd ar gapel yn y dre, felly mi fydd hynny'n mynd a chryn dipyn o fy amser. Hoffwn gymeryd rhan mewn cystadlaethau Merched y Wawr gan nad ydwyf wedi cael neud tra'n swyddog. Byddaf hefyd yn siwr o fynd am dro lawr lôn yr arfordir i Sir Benfro a dros mynyddoedd y Preseli, i fwynhau harddwch yr ardal.

7. Beth fyddai eich cyngor i'r Swyddog Datblygu newydd?

Bydd yn glust i wrando ar bob dim a phawb a bod yn barod i helpu mewn nifer fawr o sefyllfaoedd gwahanol.

Diolch yn fawr Elizabeth, a phob hwyl i chi yn eich ymddeoliad.

Lisa Tomos

O Dal-y-bont i Fiena ac yn ôl mewn 42 awr!

Ar ddiwedd Tachwedd aeth teulu Plas-y-bryniau, Tal-y-bont, ynghyd â chôr Tenovus i Fiena i ganu ym Mhalas Hoffburg. Ers 2014 Tiffany Evans, cyn ddisgybl yn ysgol Llangynfelyn a Phenglais, yw arweinydd corau Tenovus (ten of us!) yn Aberystwyth a Llanidloes. Mae'r corau wedi eu trefnu ar gyfer y sawl sy'n gwella o gancr, yn dod dros driniaeth, yn cael triniaeth neu'n perthyn i rywun sy'n dioddef o gancr. Yn wythnosol daw rhyw bump i chwedeg i'r côr yn Aberystwyth a rhagor na 60 i'r un yn Llanidloes. Yn wythnosol ledled Cymru daw oddeutu 1500 i'r un deg chwech côr sydd gan Tenovus.

Yn y dyfodol agos, oherwydd llwyddiant y corau yng Nghymru bwriedir sefydlu rhwydwaith tebyg yn Lloegr. Fel mae'n digwydd mae canran uwch o bobl Cymru yn dioddef o gancr nag unrhyw wlad arall yn Ewrop a Splott yng Nghaerdydd yw'r man gyda'r mwyaf o ddioddefwyr yng Nghymru. Sefydlwyd y côr cyntaf ym Mhontypridd yn 2010 ac fesul tipyn ychwanegwyd un côr ar y tro nes cyrraedd yr un deg chwech presennol.

Cwmni cyffuriau Gilead Sciences Ewrop Ltd, cwmni anferth rhyngwladol oedd yn trefnu'r cyfan i'w cynhadledd flynyddol yn Fiena, cynhadledd i ryw 420 o'i cynrychiolwyr pwysicaf o Ewrop, y Dwyrain Canol ac Awstralia yn cwrdd ym Mhalas Imperialaidd Awstria sef Palas Hoffburg yng nghanol y ddinas. Roedd rhaid cael adloniant i'r cynadleddwyr ar ffurf côr a chynigiwyd y cyfle cyntaf i gôr o ddioddefwyr HIV yn Llundain. Wedi oedi hir bu raid iddynt wrthod y cynnig ac felly ar frys gwyllt roedd angen côr arall i lenwi'r bwlch a dyna sut y cafodd corau Tenovus Cymru y cyfle i fynd. Allan o'r holl gorau, y ddau yr oedd Tiffany yn gyfrifol amdanynt oedd yr unig rai a fedrai gasglu 25 aelod at ei gilydd o fewn ychydig ddiwrnodau a'i hedfan i Fiena. Trefnwyd hyn oll gan Tiffany drwy ebost a ffôn ar fyr-fyr rybudd ac er bod cymaint o aelodau yn awyddus i fynd lle i 25 yn unig oedd ar yr awyren. Er tegwch i Tiffany tynnwyd yr enwau allan o het yn y pencadlys yng Nghaerdydd. Yn eu plith yr oedd Brian a Helen, tad a mam Tiffany a'i chwaer Kylie, aelodau o'i theulu ond hefyd yn gantorion cyson yn ei chorau. Talwyd am y cyfan gan y cwmni cyffuriau, doedd dim angen i'r cantorion fynd i'w pocedi am ddim.

Trefnwyd bws o Aberystwyth i Birmingham via Llanidloes, awyren i'r Swistir, a bws i Fiena, i'r Hilton Hotel.



Wrth wirio'r sain cyn y perfformiad cafodd Tiffany ei chyfle cyntaf erioed i glywed ei côr yn canu heb iddi hithau fod yn sefyll o'u blaen – arweiniwyd y côr gan drefnydd caneuon Tenovus ac wrth eu clywed yn canu llifodd dagrau Tiffany fel y gwllith crystal oedd y canu a'r sain. Bu raid iddi hi gyflwyno'r caneuon, *Mr Blue Sky*, *Something only we know*, *Bridge over troubled waters* a *Merry Christmas Everyone* ac ar ôl y gân gyntaf cymaint oedd y dorf wedi eu plesio, cododd y cynadleddwyr fel un gan stompian eu traed, curo dwylo'n ffyrnig a gweiddi'n groch.

Wedi noson yn yr Hilton rhaid oedd gadael yn fore am yr awyren i Birmingham ac wedyn bws i Aberystwyth. O ddrws Plas-y-bryniau i ddrws Plas-y-bryniau? Pedwar deg a dwy awr!

O.N.

Tenovus: sawl blwyddyn yn ôl daeth deg gŵr busnes o'r de, y 'deg o ni', at ei gilydd i wneud rhywbeth i helpu pobl llai ffodus na nhw. Eu gweithred gyntaf oedd prynu peiriant golchi i ddynes ag un fraich ond â saith o blant!

Gyrfa Chwist y Sioe

Ar nos Fercher yr 20fed o Ragfyr, cynhaliwyd ein Gyrfa chwist flynyddol. Bu'n chwist lwyddianus iawn gyda dau ddeg saith a hanner o fyrdau, ac yn cadw trefn ar y cyfan oedd Glyn Davies yr MC. Roedd yn braf gweld cymaint wrthi'n ymuno yn y chwarae a sawl plentyn ifanc yn eu plith. Daeth y cyfle am baned wedi ei baratoi gan y gwagedd hanner amser, a braf oedd cael sgwrs a phrynu tocyn raffl gan Marion ac Ann. Ail ddechreuwyd ar y chwarae a buddgwyd y noson oedd:

Sgor Uchaf – Gŵydd: Geraint Jones (Aberhosan)
Twrci: Peredur Morgan, Morien Jones (Felinfach)
Cyw Iar: Dewi Jenkins (Tyngraig), Idwal Jones (Llanddeiniol)
Cyw Iar: Mair Jones (Pennal), John Edwards (Corris)
Potel o sieri: Mair Jones (Pennal) ac Idwal Jones (Llanddeiniol)
Pwddin nadolig: Emma Parr-Davies, John (Dinas Mawddwy), Gareth Owen, Glesni Davies

Bwrw Allan – Hwyaaden: Aeron Edwards (Rhos y Garth), Alun Evans (Fronddél)

Miniatur Isaf – Anthea Jones, Sono (Ganllwyd)
Dyn/Dynes yn eistedd hiraf: Rhys Davies, Gareth Pugh (Aberdyfi)
Plentyn 16 oed neu iau: Ifan Davies, Annie-May James (Penrhyncoch)

Methodd ein llywyddion a bod yn bresennol ond bu Ieuan Morgan yn brysur yn tynnu gwobrau'r ddwy raffl ar eu rhan. Y prif enillwyr oedd:

Penwythnos ym mythynnod gwyliau Tynrhelyg: Hafodau, Goginan
£100 – Gwilym Jenkins
£50 – Teulu Llety Ifan Hen
Seddi i ddau yn Libanus – Eurllys Jones, Eurfan



£25 – Susan Rowlands, Erglodd
Hampyr o Cletwr – M. Evans, Llanwrin
Tocyn anrheg Y Blac – Richard
Pecyn gofal car gan Davmor – Hefin Jones
£20 – Hywel Williams
Tocyn anrheg gan siop bysgod Jonah – Sian Lloyd
£10 – Teulu Brysgaga
Potel o win – Eirlys Huws, Bontgoch

Enillwyd gwobrau'r raffl fach gan fobl ar y noson ac yn ei plith sawl un lleol. Cyn troi am adref, diolchodd y Gadeiryddes i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth i'r noson.

Ennill teitl Cymru

Wythnos ar ôl iddo ddatgan pryder am ei ddyfodol mae Gruff Lewis, Y Tabernacl, Tal-y-bont wedi ennill teitl Cymru a chytundeb gyda thîm Ribble Pro Cycling ar gyfer 2018.

Ar y 17ed o Rhagfyr enillodd Gruff Bencampwriaeth Genedlaethol Traws Seiclo Cymru yn Llangatwg, Powys.

“Roedd ennill y bencampwriaeth yn achlysur na'i byth anghofio, roedd wedi bod yn nod i fi erioed. Gwnaeth Matt Cronshaw, Rheolwr y Tîm, fy ffonio a gofyn a oedd gen i ddiddordeb ymuno â'i dîm. Rwyf yn 'nabod Matt ac roedd ei weledigaeth yn apelio atâ'i. Rwyf wedi gweld sut mae'r tîm yn rasio dros y blynyddoedd, a dwi'n sicr bydd cyfle i fi gyflawni fy uchelgeisiau gyda nhw. Mae'n brosiect cyffrous a gallai ddim aros i ddechrau.”

Mae Gruff yn y gorffennol wedi rasio gyda thimau UK Youth, Pedal Heaven ac yn ddiweddar Madison. Mae Ribble Pro Cycling yn paratoi am 2018 ar ôl 2017 llwyddiannus yn ennill wyth teitl cenedlaethol a dros gant o rasys.

Rhan allweddol

Fel ag y mae perchennog y tîm, Jack Rees, yn egluro: “Roedd Gruff mewn safle anodd gyda thimau seiclo ledled Prydain yn gostwng nifer eu beicwyr neu'n rhoi'r gorau iddi. Yn ffodus, rydan ni mewn safle cryf yn ceisio cyrraedd y nod o statws UCI (Union Cycliste Internationale) erbyn 2019.

“Rydan ni eisiau adeiladu ar lwyddiant 2017 a bydd Gruff yn rhan allweddol o hyn. Roedd yn glir ar ôl siarad â Gruff ei fod yn athletwr angerddol a bydd yn ased amhrisiadwy i'r tîm. Hefyd, roedd yn bwysig i mi bod Gruff a Matt wedi gweithio gyda'i gilydd yn y gorffennol, a bydd yn wych gweld ailgysylltu'r berthynas.”



Colofn Ben Lake

Mae hi wedi bod gyfnod prysur yng Ngheredigion, ac yn brysach fyth yn Llundain. Dwi wedi teithio o Bontarfynach i Landysul, ac o Dre'r Ddôl i Aberporth ac wedi treulio sawl awr ar y trên o Gaerfyrddin i Lundain.

Pleser oedd cael arwain fy nadl cyntaf yn Westminster Hall ar yr 28 Tachwedd, a hynny ar bwnc sy'n eithriadol o bwysig i Geredigion ac sy'n agos iawn at fy nghalon, sef dyfodol economi gwledig Cymru. Pwysleisiais yr angen i gydweithio, i gyd-ddychmygu, i gyd-gynllunio'r dyfodol ar draws pob sector - y sector Addysg Uwch, y sector amaethyddol, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Gyda'n gilydd dwi'n ffyddiog y gallwn wneud gwahaniaeth i'n cymunedau a'n pobl.

Mae fy swyddfa newydd bellach wedi agor ei drysau yn Llambod. Mae croeso i chi alw heibio unrhyw bryd (Bryndulais, 67 Heol y Bont) neu os oes gennych ymholiad gallwch godi'r ffôn ar 01570 940 333. Carwn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr Papur Pawb.



Y Gair Olaf



Dwi wedi cael sawl profiad rhwystredig yn teithio lan a lawr Cymru yn ddiweddar – y rhan fwyaf ohonyn nhw'n ymwneud â loriau Mansel Davies. Bu raid i fi basio pump ohonyn nhw oedd wedi mynd yn styc yn yr eira ger Tal-y-llyn yn ddiweddar, ond y profiad gwaetha fel arfer yw'r gofid ynghylch y posibilrwydd fod Pont ar Ddyfi wedi cau.

A dweud y gwir mae'n anghredadwy ein bod wedi aros ugain mlynedd i gael ffordd gall i allu teithio ar draws afon Dyfi – falle iddyn nhw wario'r holl arian oedd ar gael ar wal fawr Glandyfi? Ond mae'n rhyfeddol yn yr oes hon fod pob cerbyd a lori yn gorfod ymgodymu â phont ganoloesol er mwyn teithio drwy ganol Cymru, a hwnnw o dan ddŵr yn amlach na pheidio yn y gaeaf. Ond o'r diwedd, mae gobaith y daw pont, os na fydd anghytundeb pellach am y cynllun diweddaraf.

Ond i fi does dim yn crisialu fy rhwystredigaeth am Gymru na'r bont arall honno – Pont y Mileniwm sy'n croesi'r Ddyfi. Er fy mod yn feiciwr, fues i erioed drosti a dwi erioed wedi gweld beiciwr arall arni. Pont gostiodd gannoedd o filoedd o bunnoedd i'w chodi, fel rhyw addurn mewn set lego. Beth ddaw o'r bont honno nawr tybed? A fydd yn cael ei symud i Sain Ffagan fel enghraifft o wariant Ewropeaidd hurt?

Petai ein gwleidyddion wedi cael y weledigaeth o gael pont iawn yn lle'r bont honno ugain mlynedd yn ôl, a fyddai ein hagwedd at wleidyddion ac Ewrop ychydig bach mwy cadarnhaol?

Lefi Gruffudd

Cyngor Cymuned Llangynfelyn Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol.

Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Y Clerc

Cyngor Cymuned Llangynfelyn, Blaenddôl, Tre'r-ddôl, Machynlleth, Powys, SY20 8PL
cyngorllangynfelync-council@hotmail.co.uk

erbyn **dydd Mercher, 31 Ionawr 2018** fan bellaf

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

STORFA CANOLBARTH CYMRU



Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi



Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk



Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDSODDWR
IN PEOPLE | Mewn Pobl



Sêr tîm cyntaf Tal-y-bont gyda Chwpan y Cyngrhair

Blwyddyn i'w Chofio ... a'i Hanghofio

Adeg hon o'r flwyddyn mae'n arferiad i edrych yn ôl dros y flwyddyn chwaraeon a aeth heibio gan nodi'r uchafbwyntiau a'r siomedigaethau.

Roedd 2017 yn flwyddyn pryd, yn siomedig iawn, y collodd clybiau pêl-droed Tal-y-bont y cae a fu'n gartref iddynt ers tro a rhoddwyd sylw i'r siom hwnnw yn *Papur Pawb* a gan y BBC.

Mae'r clybiau yn parhau i obeithio y daw tîrfeddiannwr hael lleol i'r adwy i gynnig maes addas ar gyfer y gymuned.

Er y trafferthion, llwyddodd tîm cyntaf Tal-y-bont i ennill Cwpan y Cyngrhair gan guro Bont mewn gêm gofiadwy ar Goedlan y Parc, ac fe gipiodd yr ail dîm bencampwriaeth yr Ail Adran.

O ganlyniad i gollir cae, rhaid oedd hepgor yr ail dîm ar gyfer tymor 2017-18. Cafodd y tîm cyntaf ddechrau addawol i'r tymor ond yn ddiweddar dioddefwyd sawl cosfa, gan gynnwys colli 7-1 yn erbyn yr hen elyn Bow Street. Serch hynny, deallwn fod dau aelod o dîm llwyddiannus Tal-y-bont dan 16 oed, sy'n cael ei reoli gan Wyn Benjamin, wedi'u hychwanegu i'r garfan hyn, gan sicrhau egni ifanc newydd i'r tîm. Mae eraill hefyd yn aros eu tro.

Chwaraewyd yr Ŵyl Bêl-droed olaf ar Gae'r Olyn Galch ym mis Mehefin gydag 82 o dimau yn cystadlu dros y ddau ddiwrnod. Mae colli'r Ŵyl hon yn ergyd i ieuenctid y cylch.

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd sylw i ambell i unigolyn a gafodd lwyddiant yn y byd chwaraeon yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Dylan Wyn Benjamin a chwaraeodd rygbi i'r Scarlets, Cerys Williams, a fu'n rhedeg sawl marathon a Rhys Norrington-Davies a enillodd gapiau dros dîm dan 21 oed pêl-droed Cymru.

argraffu da
am bris da

ylolfa holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolfa.com

Bwyd da... Cwmni da!

BLACK LION HOTEL

yBlac 01970 832 555
croeso@yblac.co.uk



Yr Ŵyl Bêl-droed olaf